OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2024 Rhif (Cy. )

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Y Gerbytffordd tua'r Dwyrain rhwng Cyffordd 24 (Cyfnewidfa'r Faenol), Conwy a Chyffordd 27 (Cyfnewidfa Talardy), Sir Ddinbych) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2024

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *23 Hydref 2024* |
| *Yn dod i rym* | *3 Tachwedd 2024* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A55, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi, Cychwyn a Dehongli

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Y Gerbytffordd tua'r Dwyrain rhwng Cyffordd 24 (Cyfnewidfa'r Faenol), Conwy a Chyffordd 27 (Cyfnewidfa Talardy), Sir Ddinbych) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2024 a daw i rym ar 3 Tachwedd 2024.

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2024 No. (W. )

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The A55 Trunk Road (Eastbound Carriageway between Junction 24 (Faenol Interchange), Conwy & Junction 27 (Talardy Interchange), Denbighshire) (Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists & Pedestrians) Order 2024

| | |
|---|---|
| *Made* | *23 October 2024* |
| *Coming into force* | *3 November 2024* |

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A55 Trunk Road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

### Title and Commencement and Interpretation

**1.** The title of this Order is the A55 Trunk Road (Eastbound Carriageway between Junction 24 (Faenol Interchange), Conwy & Junction 27 (Talardy Interchange), Denbighshire) (Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists & Pedestrians) Order 2024 and it comes into force on 3 November 2024.

(**1**) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys ac mewn cysylltiad â’r gwaith sy’n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod sy’n dechrau am 20:00 o’r gloch ar 3 Tachwedd 2024 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” *(“the trunk road”)* yw Cefnffordd yr A55 Caer i Fangor.

**Gwaharddiadau**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

**Cymhwyso**

**6.** Nid fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod para’r Gorchymyn hwn**

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 23 Hydref 2024

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

**YR ATODLEN**

**2.** In this Order—

“exempted vehicle” *(“cerbyd esempt”)* means any vehicle being used by the emergency services and in connection with the works giving rise to this Order;

“the trunk road” *(“y gefnffordd”)* means the A55 Chester to Bangor Trunk Road;

“works period” *(“cyfnod y gwaith”)* means the period commencing at 20:00 hours on 3 November 2024 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

**Prohibitions**

**3.** No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

**4.** No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

**5.** No pedestrian may, during the works period, proceed on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

**Application**

**6.** The prohibitions in articles 3, 4 and 5 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs

**Duration of this Order**

**7.** The maximum duration for this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated the 23 October 2024

*Nicci Hunter*
Business Team Leader
Welsh Government

**SCHEDULE**

The length of the main eastbound carriageway of the

Y darn o brif gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o ffordd ymadael tua'r dwyrain Cyffordd 24 (Cyfnewidfa'r Faenol), Abergele, Conwy hyd at ganolbwynt Cyffordd 27 (Cyfnewidfa Talardy), Llanelwy, Sir Ddinbych.

Y darnau o ffyrdd ymuno tua'r dwyrain Cyffordd 24 (Cyfnewidfa'r Faenol), Cyffordd 25 (Bodelwyddan) a Chyffordd 26 (Parc Busnes Llanelwy).

trunk road that extends from the eastbound exit slip road at Junction 24 (Faenol Interchange), Abergele, Conwy to the centre-point of Junction 27 (Talardy Interchange), St Asaph, Denbighshire.

The lengths of the eastbound entry slip roads at Junction 24 (Faenol Interchange), Junction 25 (Bodelwyddan) and 26 (St Asaph Business Park).